

Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa
Ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft

Terfynol

Mehefin-Gorffennaf 2017

Crynodeb o Ystadegau Ymgysylltu ac Ymatebion



Ymatebion i arolwg **ar-lein** **98**



Mynychwyr y digwyddiad **galw heibio** **15**



Mynychwyr - **Digwyddiad Yr Wyddfa** **110**



Mynychwyr – **Cyfarfod Tirfeddiannwyr** **11**



Ymgysylltu ar **gyfryngau cymdeithasol** **19,120**



Erthyglau **newyddion cenedlaethol** **4**



Cyfweliadau **radio a theledu** **5**

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Crynodeb o Ystadegau Ymgysylltu ac Ymatebion..... | 2 |
| Crynodeb adborth yn deillio o'r ymgynghoriad | 4 |
| Sesiwn Galw Heibio..... | 4 |
| Cyfarfod Tirfeddianwyr | 4 |
| Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa | 5 |
| Arolwg Ar-lein | 6 |
| Yr Wyddfa Heddiw: Adborth ar ystod a chywirdeb y data a'r wybodaeth gaiff ei gynnwys o fewn y Cynllun. | 6 |
| Yr Wyddfa yn 2030 – Ein Gweledigaeth: Adborth ar ein gwledigaeth ar gyfer Yr Wyddfa | 7 |
| Cynllun gweithredu: Adborth ar brif flaenoriaethau'r Bartneriaeth | 9 |
| Sylwadau cyffredinol ac adborth..... | 10 |
| Newidiadau i'r Cynllun yn dilyn yr ymgynghoriad..... | 12 |
| Camau nesaf | 15 |
| Atodiadau | 16 |
| Atodiad 1: Canlyniadau'r Ymgynghoriad Ar-lein Mewn Manyllder | 17 |
| Atodiad 2: Cyfarfod Tirfeddianwyr Yr Wyddfa - 29.6.17 | 48 |
| Atodiad 3: Sesiwn galw heibio - 4.7.17 | 60 |
| Atodiad 4: Nodiadau Hwyluswyr – Diwgyddiad Yr Wyddfa..... | 65 |

Crynodeb adborth yn deillio o'r ymgynghoriad

Dyluniwyd yr ymgynghoriad er mwyn cael y nifer uchaf bosib o ymatebion adeiladol gan rhanddeiliaid posibl, a hyn wrth ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriad ar-lein a'i hyrwyddwyd yn eang yn y cyfryngau cymdeithasol, yn y wasg ac yn lleol drwy bosteri a thafenni ac ebost i'r holl rhanddeiliaid yn ogystal â sesiwn galw heibio er mwyn sicrhau y gallai'r rhai a ddymunai roi adborth wyneb yn wyneb fedru gwneud hynny. Cafodd hwn hefyd ei hyrwyddo'n eang yn y wasg, cyfryngau cymdeithasol, poster, tafenni ac drwy ebost. Cynhaliwyd cyfarfod penodol ar gyfer tîrfeddianwyr, a derbyniodd yr holl dirfeddianwyr lleol wahoddiad personol. I gloi, fe gynhaliwyd digwyddiad mewn arddull 'world café' ar gyfer rhanddeiliaid lefel uchel. Yn ogystal fe dderbyniwyd nifer o ymatebion drwy ebost.

Yn gyffredinol roedd yr adborth a dderbyniwyd, o'r holl fathau gwahanol o ymgynghori, yn gadarnhaol iawn, gyda'r thema o 'barch', sydd yn bresennol drwy'r Cynllun, yn cysylltu'n arbennig gyda ymatebwyr.

Cafwyd llawer o sylwadau adeiladol o ran gwella'r Cynllun a mae'r sylwadau hynny wedi cael eu crynhoi yn yr adrannau isod. Mae hyn yn cynnwys newidiadau man i adran data y Cynllun, gwella'r cyswllt rhwng yr adran 'weledigaeth' a 'gweithred' yn y Cynllun, ychwanegu rhif tudalen ar bob tudalen, ystyried darparu strategaeth fanylach am geisio denu buddsoddiad i'r Cynllun; a nifer o ychwanegiadau i'r cynllun gweithredu.

Sesiwn Galw Heibio

Cynhaliwyd **sesiwn galw heibio** yn y Mynydd Gwefru, Llanberis ar y 4^{ydd} o Orffennaf er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid roi adborth ar y cynllun wyneb yn wyneb, yn ogystal ac ymgynghoriad ar-lein

Dosbarthwyd poster, oedd yn hysbysebu'r digwyddiad a'r ymgynghoriad, gan wardeiniaid y Parc Cenedlaethol o fewn busnesau, caffis, siopau ac adeiladau cymunedol o fewn ardal Yr Wyddfa (Rhyd Ddu, Beddgelert, Llanberis, Capel Curig). Yn ogystal a hyn, fe fu ymdrech sylweddol yn yr ymgyrch o fewn y cyfryngau er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r digwyddiad a'r ymgynghoriad. Cafodd y stori sylw ar BBC Radio Wales, Radio Cymru, gwefan newyddion y BBC ac ar 'Grough'. Cynlluniwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol hefyd, gyda'r holl partneriaid yn hysbysebu'r ymgynghoriad a'r digwyddiad drwy eu cyfryngau cymdeithasol.

Er gwaethaf y sylw eang roedd y nifer a fynychwyd y sesiwn galw heibio yn isel, gyda 15 person yn mynychu. Er hyn fe arhosodd y rhan fwyaf o fynychwyr am gyfnod estynedig a fe dderbyniwyd sylwadau defnyddiol ac ystyriol ar bob agwedd o'r cynllun.

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd ar y Cynllun yn gadarnhaol iawn. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn y tablau isod.

Cyfarfod Tîrfeddianwyr

Ar y 29^{ain} o Fehefin cynhaliwyd cyfarfod yn **Waunfawr** yn benodol ar gyfer tîrfeddianwyr yn ardal Yr Wyddfa er mwyn cael eu adborth ar y cynllun drafft.

Fe wnaeth wardeiniaid y Parc Cenedlaethol roi gwahoddiad personol i bob tîrfeddianwr sydd yn byw'n lleol, a roedd y rhai sy'n byw yn bellach yn derbyn gwahoddiad drwy ebost neu alwad ffôn.

Rhoddodd staff y Parc Cenedlaethol, a chynrychiolwyr yr undebau, drosolwg o'r broses ymgynghori, atgoffa'r mynychwyr o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod tîrfeddianwyr gwreiddiol a nodi pa rôl y mae'r cynrychiolwyr undebau wedi ei chwarae yn ystod y broses. Nodwyd fod yr Undebau yn hapus iawn i fod yn ran o'r broses ac yn gefnogol iawn o'r Cynllun, a nodwyd fod llwyddiant yn nhermau dod a defnyddwyr, ymwelwyr a thîrfeddianwyr gyda'i gilydd yn drawiadol iawn, a fod perthynas rhwng rhanddeiliaid yn Eryri yn llawer gwell na'r gwelir mewn rhannau eraill o Gymru. Pwysleisiodd yr Undebau pa mor bwysig oedd twristiaeth i'r ardal ond ei fod yn hanfodol peidio anghofio am y ffermwyr a'u cyfraniad.

Roedd yr adborth o'r cyfarfod tîrfeddianwyr yn gadarnhaol iawn, gyda cefnogaeth gryf ar gyfer y thema 'parch' sydd yn rhedeg drwy'r ddogfen.

Yna fe roddwyd drosolwg, gan staff y Parc Cenedlaethol, o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y cyfarfod tîrfeddianwyr gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2015, ar gwasanaethau y mae'r Parc Cenedlaethol yn ei gynnig i dirfeddianwyr. Mae'r prif faterion a godwyd yn y cyfarfod Rhagfyr 2015 a'r modd y maent/yn mynd i gael eu datrys wedi eu rhestru isod;

- Diffyg parch (e.g. cŵn oddi ar dennyn, cerdded dros a difrodi waliau, sbwriel ac ati): *Gwaith gyda Ceidwaid Ifanc mewn ffurf cynllun peilot; teithiau ysgol i ffermydd; wardeiniaid gwirfoddol ac wardeiniaid ardal; fan dehongli newydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru; Cynllun Rhodd ymwelwyr, ac addysgu ymwelwyr a phobl ifanc.*
- Digwyddiadau Elusen/Digwyddiadau (ddim yn cyfathrebu/cysylltu a thîrfeddianwyr a ddim yn talu): *cynllun rhodd ymwelwyr yn annog digwyddiadau i roi rywbeth nol i'r ardal.*
- Parcio a thrafnidiaeth (ddim digon o lefydd a pobl yn parcio mewn mannau peryglus): *Gwaith wedi ei gwblhau yn Cwellyn er mwyn cynyddu nifer o lefydd parcio. Caiff ei osod allan yn y Cynllun sut y gnawn weithio gyda Cynghorau i greu cynllun integredig.*
- Llwybrau a mynediad (pobl yn mynd oddi ar lwybrau): *Cefnogaeth gall y tim wardeinio ei gynnig gyda hyn*
- Marchnata Croeso Cymru

Yna fe roddwyd trosolwg o gynnwys y Cynllun a fe gynhaliwyd trafodaeth o gwmpas pob eitem agenda. Gellir gweld crynodeb o hyn yn yr adrannau isod

Rhoddwyd manylion pellach i dirfeddianwyr ynglyn a sut i gyflwyno adborth, terfynnau amser ar gyfer ymateb a be fyddai'n digwydd nesaf. Yn dilyn hyn fe wnaeth nifer o dirfeddianwyr, oedd yn bresennol yn y cyfarfod neu beidio, gyflwyno adborth yn yr ymgynghoriad ar-lein.

Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa

Cynhaliwyd ddigwyddiad '**world café**' arbennig er mwyn rhannu a thrafod Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa gyda rhanddeiliaid lefel uchel.

Pwrpas y digwyddiad oedd i gyflwyno'r cynllun drafft i randdeiliaid, casglu eu meddyliau am y cynllun, eu syniadau ar gyfer sut y gellir ei wella a'i ddatblygu a sut y gall nhw, a'u sefydliad, gyfrannu at y cynllun.

Mynychwyd y digwyddiad gan 110 o bobl, yn cynrychioli ystod eang o randdeiliaid lefel uchel. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau gan arbennigwyr yn eu maes ar destunau penodol. Yn dilyn hyn fe gafwyd crynodeb o gynnwys y Cynllun gan Helen Pye, Rheolwr Partneriaethau ym Mharc

Cenedlaethol Eryri. **Yn dilyn pob cyflwyniad ar destun penodol roedd yna drafodaeth mewn grwpiau a'u hwyluswyd.**

Roedd adborth yn ystod, ac yn dilyn, y digwyddiad yn bositif ac yn adeiladol iawn. Mae crynodeb o'r sylwadau ar syniadau a drafodwyd ar bob bwrdd i'w gweld isod, a mae crynodeb llawn o'r holl sylwadau wedi eu cofnodi yn **Atodiad 4**.

Arolwg Ar-lein

Roedd yr ymgynghoriad ar-lein yn agored am holl gyfnod yr ymgynghoriad ac fe'i hyrwyddwyd yn eang ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag ar bosteri a thafleenni a ddisbarthwyd yn lleol.

Derbyniwyd 98 ymateb i'r arolwg ar-lein – 76 yn Saesneg a 22 yn Gymraeg

Roedd 20% o ymatebwyr yn byw neu gweithio o fewn 5 milltir i'r copa.

Roedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr (27%) yn ymweld â'r ardal yn rheolaidd ond ddim yn byw neu'n gweithio o fewn yr ardal neu gogledd Cymru. **Felly gellir tybio fod y grŵp mwyaf o ymatebwyr yn byw a gweithio tu allan i ogledd Cymru**

Gofynnwyd i ymatebwyr roi adborth ar ddata o fewn y Cynllun, y weledigaeth, y cynllun gweithredu ac i roi adborth cyffredinol. Mae'r canlyniadau wedi ei crynhoi yn yr adrannau isod, a gellir gweld crynodeb manwl o fewn Atodiad 1.

Roedd y mwyafrif helaeth (85%) yn hapus gyda'r data a gyflwynwyd o fewn y Cynllun gyda rhai yn cynnig man newidiadau.

Roedd y mwyafrif helaeth (72%) hefyd yn hapus am y **weledigaeth** a gyflwynwyd am Yr Wyddfa gyda rhai yn cynnig man newidiadau. Roedd hyn cynnwys mwy o bwyslais ar y cydbwysedd rhwng pobl a natur a pwyslais gryf ar y cydbwysedd rhwng twristiaeth/ymwelwyr a chadwraeth/gwarchod y tirwedd.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (63%) yn hapus gyda'r **cynllun gweithredu**, gyda nifer o'r sylwadau cysylltiedig yn gefnogol dros ben o'r cynllun gweithredu a beth mae'n anelu i'w gyflawni. O ran y gwelliannau a awgrymwyd, mae nifer o ymatebwyr yn nodi'n benodol yr angen i gryfhau'r cysylltiad rhwng y cynllun gweithredu a'r weledigaeth.

Yr Wyddfa Heddiw: Adborth ar ystod a chywirdeb y data a'r wybodaeth gaiff ei gynnwys o fewn y Cynllun.

Sesiwn galw heibio:

Roedd mynychwyr yn hoff o'r deunyddiau darllen a ddefnyddwyd i ddangos data a gwybodaeth a roedd yna deimlad fod y data yn dda o ran cywirdeb.

Teimlwyd y gallai'r 'cylich tymhorol' gynnwys fwy o wybodaeth yn nhermau y ffactorau tymhorol yn ymwneud a phwysau e.e. parcio a fe fyddai'n ddefnyddiol, os ar gael, i ddefnyddio gwybodaeth amaethyddol ar gyfer Eryri yn hytrach nag ar lefel cenedlaethol.

Ymgynghoriad ar-lein:

Gofynwyd i'r ymatebwyr os oedden nhw'n hapus fod yr adran yma'n adlewyrchu sut mae'r Wyddfa yn edrych ar y funud. Fel gyda'r sesiwn galw heibio, roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr (85%) yn hapus gyda'r cynnwys. O'r sawl nad oedd yn hapus, roedd y mwyafrif eisiau gweld data nad oedd ar gael yn bresennol wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun. Er hyn roedd yna esiamplau o ble roedd y ru'n un math o ddata yn cael ei grybwyll gan nifer o ymatebion.

- Gofynnodd sawl ymatebydd am fwy o ddata ar y broblem parcio sydd yn yr ardal. Nid yw data ar hyn ar gael ar hyn o bryd, ond fe ystyrir hyn fel maes ymchwil ar gyfer y dyfodol
- Nododd sawl ymatebydd y byddent yn hoffi gweld y gwahaniaeth mewn cyfraddau 'galw-allan' ar y 3 copa gwahanol wedi ei arddangos mewn modd mwy dealladwy
- Hoffai nifer o ymatebwyr weld y ffigyrau ffermio wedi ei arddangos ar gyfer yr ru'n un ardaloedd ar data twristiaeth
- Nododd rhai fod y data ymysodiadau cŵn ar ddefaid yn ddryslyd

Yr Wyddfa yn 2030 – Ein Gweledigaeth: Adborth ar ein gwledigaeth ar gyfer Yr Wyddfa Digwyddiad galw heibio:

Roedd mynychwyr yn teimlo fod y weledigaeth yn un gwych gyda nifer o sylwadau cadarnhaol. Teimlai un mynychwr fod 2030 yn rhy bell i'r dyfodol ac y dylid cymyd camau yn gynt na hyn. Mae'r cynllun gweithredu (gweler isod) yn gosod allan cynllun pum mlynedd, ond fe allai gwneud hyn yn gliriach yn y weledigaeth 2030.

O ran sylwadau ac awgrymiadau penodol, roedd yna gefnogaeth eang i'r thema o 'barch'. Roedd Seland Newydd (Yr Adran Gadwraeth) yn cael ei defnyddio fel enghraifft benodol o ble mae'r dull yma wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus. Teimlai un person nad oedd digon o bwyslais ar roi addysg i bobl ifanc.

Roedd cefnogaeth gryf o blaid gwella isadeiledd cyfathrebu yn yr ardal, er roedd un person yn nodi fod pobl yn dod i'r ardal er mwyn dianc o dechnoleg. Roedd cefnogaeth gryf ar gyfer gwella cylfeusterau – yn benodol o ran toiledau a ystyrir i fod yn is-safonol ar hyn o bryd. Nodwyd cefnogaeth gryf tuag at gyflwyno gwybodaeth ar ddechrau llwybrau (enwedig llwybr Llanberis).

Yn nhermau'r amgylchedd, roedd yna bwyslais gryf ar geisio delio ar broblem sbwriel, a cafwyd sylwadau a gefnogai bwyslais mwy manwl ar ddathlu a hyrwyddo bywyd gwyllt pwysig yr ardal.

Cyfarfod tirfeddianwyr:

Cefnogaeth gryf i'r thema 'parch' sydd yn rhedeg drwy'r ddogfen. Gellir adeiladu ar y neges yma.

Ymgynghoriad ar-lein:

Ymatebodd 72% yn gadarnhaol i'r weledigaeth ar gyfer Yr Wyddfa. Roedd dros hanner yr holl ymatebwyr (56%) yn hapus, gyda 16% arall yn hapus iawn.

Ymatebodd ychydig dros chwarter yn negyddol. Dim ond 4% oedd 'ddim yn hapus o gwbl'. Roedd nifer o'r rhain gyda pwyntiau cyferbyniol, gyda dim ond un pwynt a ailadroddwyd yn gyson gan ymatebwyr:

- Mwy o bwyslais ar y cydbwysedd rhwng pobl a natur ac yn arbennig y cydbwysedd rhwng twristiaeth/ymwelwyr a chadwraeth/gwarchod y tirwedd

Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa:

Dyma'r pwyntiau a ddaeth i'r amlwg yn gyson o'r trafodaethau a hwyluswyd yn ystod Digwyddiad Yr Wyddfa, a hyn yn nhermau elfennau a allai wella'r Cynllun.

1. Parch

1. Integreiddio negeseuon marchnata a gytunwyd (côd cefn gwlad/parch/diogelwch mynydd/iaith/diwylliant) i bob ffynhonnell gwybodaeth (ac adran seicoleg gwaith ym Mhrifysgol Bangor i ddatblygu negeseuon), gan gynnwys ymgyrchoedd Croeso Cymru/Llwyodraeth, Canolfannau Gwybodaeth, gwefannau partneriaid a Chynllun Rhodd Ymwelwyr ac ati. Rhanddeiliaid sydd wedi cynnig helpu i ledaenu'r negeseuon: BMC, Plas y Brenin, Cerddwyr
2. Mynydd di-wastraff – manau ailgylchu ym mhob pwynt mynediad ac annog llai o ddefnydd o gwpanau papur ac ati.
3. Hyrwyddo buddiannau twristiaeth yn lleol.

2. Isadeiledd a gwasanaethau

1. Amserlen gwell ar gyfer y gwasanaeth bws Sherpa.
2. Defnydd o 'FEMTO cells'/'TV Whitespace' er mwyn gwella signal ffôn/wi-fi
3. Hyrwyddo gwasanaethau bws yn well.
4. Gwell cydbwysedd rhwng gwasanaethau bws a thacsi.
5. Gwella eglurdeb marciau ar y ffyrdd ac arwyddion parcio.
6. Canolfan wybodaeth/adeilad newydd ym Mhen y Pass.

3. Economi leol

1. Brexit a'i effaith.

4. Amgylchedd

1. Addysgu ymwelwyr am yr amgylchedd (yn ogystal a diwyllaint a iaith yr ardal) trwy ddarparwyr awyr agored, wardeiniaid (APCE a CNC) a gwirfoddolwyr
2. Defnyddio gwirfoddolwyr i gwblhau arolygion amgylcheddol
3. Cymhellion/ymgyrch i waredu sbwriel o'r mynydd

5. Gwybodaeth Ymwelwyr

1. Gwell cysylltiadau/partneriaethau a chysylltiadau trafndiaeth gyda atyniadau eraill yr ardal.
2. Sicrhau fod gan busnesau lleol gyda gwybodaeth ar negeseuon diogelwch mynydd; llwybrau trafndiaeth a gwybodaeth parcio
3. Datblygu a hyrwyddo app am Yr Wyddfa a fyddai'n:
 - Darparu gwybodaeth gyfoes, hawdd i'w lawrlwytho ar:
 - Lwybrau cerdded
 - Côd cefn gwlad
 - Diogelwch mynydd
 - Trafndiaeth gyhoeddus
 - Parcio
 - Llety a busnesau lleol
 - Mynyddoedd ac atyniadau twristiaeth eraill yn ogystal â'r Wyddfa and

- Hanes lleol, bywyd gwyllt, pethau eraill o ddiddordeb
- Iaith Gymraeg
- Digwyddiadau yr Wyddfa (e.e. marathonau, ras tri copa ac ati)
- Cyngor i arweinwyr grwpiau
- Casglu gwybodaeth ar:
 - Ymweliadau grŵp wedi'u cynllunio
 - Profiad ymwelwyr
 - Gweithgaredd ymwelwyr
 - Problemau a nodwyd
 - Arolygion amgylcheddol
 - Beth i'w wneud mewn argyfwng

Cyffredinol

Yr angen i nodi ffynonellau buddsoddiad/cynhyrchu incwm/lleihau costau sydd yn cynnwys:

- Rhodd Ymwelwyr (a fyddai angen corff penodol yn ei arwain a'i gyd-lynu).
- Ochr elusennol i'r Bartneriaeth.
- Cyd-weithio/rhannu adnoddau i leihau costau.

Cynllun gweithredu: Adborth ar brif flaenoriaethau'r Bartneriaeth

Sesiwn galw heibio:

Unwaith eto roedd yna gefnogaeth gryf ar gyfer hyn. Nododd un person "Gallai'r hyn y bwriadwch ei wneud/gyflawni fod yn fwy penodol. Sut fyddwch chi'n ei fesur?". Mae'n werth nodi fod adran olaf y cynllun yn nodi sut y byddwn yn mesur llwyddiant er nad oedd hyn wedi cael ei amlygu yn y sesiwn galw heibio.

Roedd yna nifer o sylwadau penodol ar y cynllun gweithredu, yn amrywio o siarad am y broblem sbwriel i gefnogaeth gryf ar gyfer y syniad o ehangu y tymor twristiaeth, a chynghor i ddigwyddiadau a drefnwyd o flaen llaw. Gellir gweld pob sylwad yn **Atodiad 3**.

Cyfarfod tirfeddianwyr:

- Gall y 'fan dehongli' newydd ymweld a meysydd gweryslla.
- Annog digwyddiadau wedi'u trefnu i gyfrannu drwy gynllun rhodd ymwelwyr
- Mwy o bwyslais ar drefnwyr digwyddiadau yn cysylltu a thirfeddianwyr.
- Parhau i fynd i'r afael â materion gweryslla gwyllt.
- Delio a phroblemau parcio – er gwaethaf darparu mwy o fannau parcio yn Cwellyn, mae yna dal geir wedi parcio ar y ffordd yn ystod penwythnosau gwyl y banc.
- Parcio dros dro ar dir amaethyddol – Undebau yn gallu chwarae rôl drwy hwyluso trafodaethau
- Ail-bwysleisio rôl wardeiniaid a'r gwasanaethau maent yn ei gynnig i dirfeddianwyr o ran materion mynediad.
- Erydiad llwybrau ar y mynydd yn cynyddu a dod yn fwy o broblem
- Ystyried goblygiadau cŵn nad ydynt ar dennyn ar adrannau newydd o gylchdaith Yr Wyddfa
- Cig oen Yr Wyddfa a brandio cynnyrch lleol arall – Adran amaeth/cadwraeth y PC am edrych mewn i'r potensial o hyn. Proses gymhleth ond werth ei ystyried.
- Potensial ar gyfer treialu PES (talu am gynlluniau gwasanaethau ecosystem) ar Yr Wyddfa i'r rhai sydd eisiau cymryd rhan.

Ymgynghoriad ar-lein:

Roedd 63% o ymatebwyr yn hapus gyda'r cynllun gweithredu. Roedd dros hanner o ymatebwyr (57%) yn hapus a 6% ychwanegol yn hapus iawn, gyda nifer o sylwadau perthnasol yn gefnodol o'r cynllun gweithredu â'r hyn y mae'n anelu i'w gyflawni

Dim ond 7% oedd 'ddim yn hapus o gwbl'. Fel gyda'r weledigaeth, roedd nifer o'r rhain yn awgrymiadau cyferbynniol neu unigol – er enghraifft teimlai rai fod y cynllun gweithredu yn un uchelgeisiol o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, tra bod eraill yn teimlo nad oedd y cynllun yn ddigon uchelgeisiol. Cafodd nifer o bwyntiau eu hailadrodd yn gyson gan ymatebwyr:

- Gellir gwella'r cyswllt rhwng y cynllun gweithredu a'r weledigaeth.
- Gallai'r cynllun gweithredu fod yn fwy manwl (noder fod yna gynllun gweithredu manwl iawn gyda dyddiadau, cyfrifoldebau ac ati wedi ei nodi, ond gan fod hwn yn ddogfen swmpus ar ben ei hun dim ond crynodeb sydd yn y cynllun)
- Gallai'r adran ar 'economi iach a bywiog' fod yn gryfach a gellir cael mwy o gamau gweithredu sy'n gysylltiedig a thwristiaeth gan ei fod yn cael effaith enfawr ar economi'r ardal leol.

Sylwadau cyffredinol ac adborth

Sesiwn galw heibio:

Roedd y sylwadau cyffredinol ac adborth o'r sesiwn galw heibio yn gadarnhaol iawn gyda dau bwynt yn sefyll allan o'r holl sylwadau eraill:

- Cyffro a teimlad positif yn gyffredinol am y Cynllun ac yr hyn y gallai gyflawni.
- Cefnogaeth i'r ffaith bod cymaint o sefydliadau wedi dod at ei gilydd i greu a chefnogi'r Cynllun.

Cyfarfod tirfeddianwyr:

- Rhoi rhif tudalen ar bob tudalen.

Ymgynghoriad ar-lein:

Holwyd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar lein ynglŷn â pha mor ddefnyddiol oedd y broses ymgynghori wedi bod. Ymatebodd y mwyafrif yn gadarnhaol, gyda ychydig dros hanner (54%) yn gweld yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol, a bron i chwarter (22%) yn gweld yr ymgynghoriad yn 'ddefnyddiol iawn'. Dyma rai o'r sylwadau a dderbynwyd:

- *Rwy'n credu y dylid cymeradwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn y modd mae wedi ymdrin a'r prosiect yma. Mae'n fodel ar gyfer rheolaeth cyd-gynhyrchiad cynllun cymleth a heriol. Mae cyfathrebu wedi bod yn wych a mae yna amryw o gyfleoedd wedi bod i fwydo mewn i'r broses ar bwyntiau allweddol.*
- *Gwerthfawrogi'r cyfle i allu ymateb ar-lein*

- *Trwy gydol y broses, mae llawer iawn o gyfleoedd wedi bod i mynegi barn. Ac mae pobl wedi bod mwy na pharod i wrando ar wahanol leisiau*
- *Mae ymdrech arbennig wedi ei wneud i gynnwys pawb yn y broses ymgynhgori*

Roedd un rhan o bump yn teimlo nad oedd yr ymgynghoriad yn 'Ddefnyddiol o gwbl'. Roedd y mwyafrif o'r rhain wedi dod gan bobl oedd wedi dod ar draws yr ymgynghoriad ar gyfryngau cymdeithasol a nad oedd yn byw neu'n gweithio yn yr ardal leol. Roeddent yn teimlo y dylent wedi clywed am yr ymgynghoriad yn gynta na'r gwnaethon nhw

Newidiadau i'r Cynllun yn dilyn yr ymgynghoriad

Mae'r holl sylwadau o'r ymgynghoriad wedi cael eu ystyried gan y Bartneriaeth. Bydd y Cynllun yn cael ei addasu a'i wella, yn arbennig mewn adrannau lle cawsom sylwadau oedd yn ail-adrodd ar bwynt neu thema penodol. Isod ceir crynodeb o'r newidiadau â'r gwelliannau a wnawn i'r cynllun.

| Newid a awgrymwyd | Digwyddiad |
|---|---|
| Cyffredinol | |
| Rhoi rhif tudalen ar bob tudalen | Cyfarfod Tirfeddianwyr & Arolwg ar-lein |
| <p>Ail-bwysleisio o fewn y cyflwyniad y ffaith y bydd y cynllun yn teclyn ar gyfer denu buddsoddiad yn yr ardal, a'r angen (fel gweithred) i nodi ffynonellau buddsoddiad/cynhyrchu incwm/lleihau costau sydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhodd Ymwelwyr (a fyddai angen corff penodol yn ei arwain a'i gyd-lynu). • Ochr elusennol i'r Bartneriaeth. • Cyd-weithio/rhannu adnoddau i leihau costau | Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa |
| Data (Lle rydym ni nawr) | |
| Dangos data amaethyddiaeth ar raddfa Eryri os yn bosib er mwyn gallu ei gymharu ag ystadegau eraill | Sesiwn galw heibio & arolwg ar-lein |
| Gofynnodd sawl ymatebydd am fwy o ddata ar y problemau parcio yn yr ardal. Bydd data sylfaenol yn cael ei gynnwys, ond nid yw data manwl ar hyn ar gael ar hyn o bryd ond fe'i ystyrir fel maes ymchwil ar gyfer y dyfodol. | Arolwg ar-lein |
| Gwahaniaethau mewn graddfeydd galw allan ar y tri copa gwahanol wedi ei ddangos yn gliriach | Arolwg ar-lein |
| Addasu data at gyfer ymosodiadau cŵn ar ddefaid i ddangos y nifer o ymosodiadau. | Arolwg ar-lein |
| Gweledigaeth | |
| Gwneud hi'n glir fod yna gynllun gweithredu 5 mlynedd a 10 mlynedd h.y. bydd gwaith yn cychwyn yn syth. | Sesiwn galw heibio |
| Parch: Angen integreiddio 'addysg' (ysgolion ac ati) i'r adran hon rywsut | Sesiwn galw heibio |
| Amgylchedd – Angen cynnwys gwybodaeth 'awyr dywyll' | Sesiwn galw heibio |
| Amgylchedd: Mwy o bwyslais ar y cydbwysedd rhwng pobl a natur ac yn benodol y cydbwysedd rhwng twristiaeth/ymwelwyr a chadwraeth/gwarchod y tirwedd. | Arolwg ar-lein |
| Cynllun Gweithredu | |
| Gwella'r cyswllt i'r weledigaeth - drwy sicrhau bod y penawdau ar gyfer bob adran yn cyd-fynd. | Arolwg ar-lein |
| Cynnwys camau i gasglu data trwy fecanweithiau sefydledig. | Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa |
| Economi wledig a cymunedau lleol | |

| | |
|--|--|
| Gwell cyswllt a rhyngweithio rhwng tîrfeddianwyr, rheolwyr tir, busnesau lleol, cymunedau a'r Bartneriaeth | Sesiwn galw heibio |
| Gellir bod yn gryfach a chynnwys mwy o weithredoedd yn gysylltiedig i dwristiaeth gan fod ganddo effaith enfawr ar economi'r ardal leol - bydd hyn yn cael ei wella, ond mae'r prif cysylltiadau o fewn y cynlluniau gweithredu ar 'seilwaith a gwasanaethau' a 'gwybodaeth i ymwelwyr'. | Arolwg ar-lein |
| Isadeiledd a gwasanaethau | |
| Mynydd di-wastraff – ailgylchu ym mhob pwynt mynediad ac annog ddefnydd o deunydd ail-ddefnydd. | Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa |
| Gwella eglurder marcio ffyrdd ac arwyddion (integreiddio i mewn i'r weithred ar barcio/trafnidiaeth). | Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa |
| Gwell cysylltiadau/partneriaethau a chysylltiadau trafndiaeth gyda atyniadau eraill yn yr ardal. | Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa & Sesiwn galw heibio |
| Gwybodaeth i ymwelwyr | |
| Datblygu a hyrwyddo 'app' newydd ar gyfer Yr Wyddfa Archwilio'r hyfywedd o ddatblygu ac yna hyrwyddo'n eang app ansawdd uchel ar gyfer Yr Wyddfa. | Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa |
| Mwy o wybodaeth ar waelod llwybr Llanberis a phwyntiau strategol eraill yn yr ardal trwy fuddsoddi mewn fan gwybodaeth symudol. | Sesiwn galw heibio & Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa |
| Gall y fan gwybodaeth newydd ymweld a meysydd gweryslla – gweler uchod. | Cyfarfod tîrfeddianwyr |
| Gweithio gyda'r Llywodraeth ar ddefnyddio 'FEMTO cells'/'TV Whitespace' ar gyfer gwella signal ffôn/wifi | Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa |
| Datblygu negeseuon o barch (yn berthnasol i gôd cefn gwlad/diogelwch mynydd/iaith/diwylliant/ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar y copa) a'i integreiddio'n llawn i holl ffynonellau gwybodaeth. Edrych ar esiamplau o Seland Newydd (AC) a gweithio ag adran seicoleg Prifysgol Bangor. Defnyddio rhanddeiliaid i ledaenu'r neges. | Sesiwn galw heibio & Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa & ymatebion ebost |
| Mwy o bwyslais/ffocws ar ddathlu bywyd gwyllt yr ardal | Sesiwn galw heibio |
| Diweddarau map a chanllaw gwrth-ddŵr Yr Wyddfa i gynnwys negeseuon newydd | Ymatebion ebost & Arolwg ar-lein |
| Gweithgareddau awyr agored, antur ac addysg | |
| Annog digwyddiadau wedi'u trefnu i gyfrannu drwy gynllun rhodd ymwelwyr | Cyfarfod tîrfeddianwyr |
| Sefydlu mecanweithiau clir ar gyfer mwy o bwyslais ar ddigwyddiadau sy'n Mwy o bwyslais ar ddigwyddiadau yn cysylltu a thîrfeddianwyr a sicrhau fod yna fas-data o dirfeddiannwyr ar gael sydd yn hawdd i'w fynychu. Sicrhau bod cymunedau lleol yn ymwybodol o'r digwyddiadau. Defnyddio grwpiau cymunedol sefydledig lle bo hynny'n briodol. Ychwanegwch hyn at y camau presennol o fewn y Cynllun ar ddigwyddiadau. | Cyfarfod tîrfeddianwyr |
| Ail-bwysleisio'r camau sydd yn cael ei cymryd am wersylla gwyllt/ gweryslla heb awdurdod - drwy'r cod gweryslla gwyllt. | Cyfarfod tîrfeddianwyr |
| Undebau amaeth i chwarae rhan mewn hwyluso trafodaethau strategol am barcio dros-dro. Integreiddio o fewn y gweithredoedd parcio/trafnidiaeth. | Cyfarfod tîrfeddianwyr |
| Ail-bwysleisio rôl y wardeiniaid, a'r gwasanaethau y gallent eu gynnig i dirfeddiannwyr gyda materion mynediad | Cyfarfod tîrfeddianwyr |
| Ystyried goblygiadau cwn ddim ar dennyn ar adrannau newydd o gylchdaith Yr Wyddfa | Cyfarfod tîrfeddianwyr |

| | |
|--|-----------------------------------|
| Adeiladau ar y defnydd o wirfoddolwyr ar gyfer cwblhau arolygon amgylcheddol a gwaith ymchwil. | Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa |
| Gofalu am Yr Wyddfa | |
| Hwyluso a chefnogi unrhyw dirfeddianwyr sydd am dreialu TGGE (talu am gynlluniau gwasanaethau ecosystem) ar Yr Wyddfa. | Cyfarfod tirfeddianwyr |
| Cymhelliant/ymgyrch i gael gwared â sbwriel o'r mynydd drwy Wyddfa Lan. Ymgorffi i'r gweithred ar mynydd ddi wastraff. | Digwyddiad 'World Café' Yr Wyddfa |


Camau nesaf

1. Bydd y newidiadau a'r gwelliannau a amlinellir uchod yn cael eu gwneud i'r Cynllun.
2. Bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i uwch reolwyr/byrddau/gweithgorau pob sefydliad sydd o fewn y Bartneriaeth ar gyfer cymeradwaeth.
3. Bydd newidiadau terfynol yn cael eu gwneud yn dilyn y cyfarfodydd hyn.
4. Bydd y draft terfynol yn cael ei gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w gymeradwyo.
5. Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi a'i lawnsio.

Atodiadau

Atodiad 1: Canlyniadau'r Ymgynghoriad Ar-lein Mewn Manyllder

Pob Ymateb (arolygon Cymraeg a Saesneg wedi'u cyfuno)




Mae 20% o'r ymatebwyr yn byw neu'n gweithio o fewn 5 milltir i'r copa.

Mae'r grŵp mwyaf o'r ymatebwyr (27%) yn ymweld â'r ardal yn rheolaidd ond nid ydynt yn byw neu'n gweithio yn yr ardal, nac yng ngogledd Cymru. **Felly, gellir tybio bod y grŵp mwyaf o ymatebwyr yn byw ac yn gweithio tu allan i ogledd Cymru.**

A ydych yn fodlon fod yr adran yma'n
adlewyrchu'r hyn y mae'r Wyddfa yn edrych fel
heddiw?

% o'r holl ymatebion




Ddim yn fodlon o gwbl Bodlon dros ben
- Not at all happy - 2 - 3 - Extremely happy

Ymatebodd 85% yn gadarnhaol i'r cwestiwn yma gyda bron i chwarter (23%) yn fodlon dros ben.

Dim ond 15% a ddarparodd ymateb negyddol.

A ydych yn hapus gyda'r weledigaeth ar gyfer yr
Wyddfa?
% o ymatebwyr




Ddim yn fodlon o gwbl
- Not at all happy

Bodlon dros ben
- Extremely happy

Ymatebodd 72% yn gadarnhaol i'r weledigaeth ar gyfer yr Wyddfa. Roedd dros hanner yr holl ymatebwyr (56%) yn hapus, gyda'r 16% sy'n weddill yn fodlon dros ben.

Ymatebodd ychydig dros chwarter yn negyddol. Dim ond 4% oedd 'Ddim yn fodlon o gwbl'.


A ydych yn hapus gyda cynnwys y cynllun gweithredu?
% o'r holl ymatebion



Mae dros hanner yr holl ymatebwyr (57%) yn hapus gyda'r cynllun gweithredu, gyda 6% arall yn fodlon dros ben.

Dim ond 7% oedd 'Ddim yn fodlon o gwbl'.


Pa mor ddefnyddiol oedd broses ymgynghori...
% o'r holl ymatebion



Roedd ychydig dros hanner (54%) o'r holl ymatebwyr wedi gweld yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol. Roedd bron i chwarter (22%) yn gweld yr ymgynghoriad yn 'Ddefnyddiol Dros Ben'.

Roedd un pumed o'r ymatebwyr yn gweld yr ymgynghoriad yn fel un 'Ddim yn ddefnyddiol'.

Sut glywsoch chi am yr ymgynghoriad yma?
% o'r holl ymatebwyr




- Cylchlythyr Yr Wyddfa
- Cyfryngau cymdeithasol
- Arall
- Gan ffrind/teulu/cydweithiwr
- Poster/taflen

Clywodd bron i hanner (46%) am yr ymgynghoriad yn gymdeithasol - naill ai'n ddigidol (cyfryngau cymdeithasol) neu'n uniongyrchol o gysylltiadau cymdeithasol.

Clywodd 43% drwy amrywiaeth o ffynonellau 'Eraill'.

Isod mae'r ymatebion wedi'u rhannu i mewn i'r Categoriâu yn seiliedig ar eu perthynas â'r ardal. Mae labeli data yn dangos canran yr holl ymatebion ar draws pob categori ar gyfer pob cwestiwn. Felly, yn y graff cyntaf a ddangoswyd isod, roedd 31% o'r holl ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn gan unigolion Categori 1 a ymatebodd gyda 3.

Categori 1 - Diddordeb proffesiynol / gwaith; Byw yn yr ardal; Gweithio yn yr ardal



Sylwadau:

- Cytuno gyda'r hyn a nodwyd. Problem parcio yn un difrifol sydd yn effeithio llawer ar y cymunedau sydd angen gweithio a theithio yn yr ardal. Problem arall yw y gostyngiad sylweddol sydd yn cymryd lle gyda nifer y defaid sydd yn pori ar y mynydd. Mae hyn yn siwr o arwain at gollu nifer fawr o gynefinoedd gwahanol ymhen amser.
- Cynhwysfawr iawn.
- Mae Rhyd Ddu yn dal i fod y llwybr wedi ei adael allan o ran Yr Wyddfa. O ran 'cyrraedd yr Wyddfa' nid yw hyd yn oed wedi ei nodi fel llwybr ar Yr Wyddfa.


- *Rwy'n falch o weld fod maes parcio Cwellyn wedi'i ailgynllunio i ddarparu mwy o leodedd ond mae angen gwneud llawer mwy ar ochr Orllewinol yr Wyddfa.*
- *O'n profiad ni, mae mwyafrif yr ymwelwyr o Lundain a'r De ac rwy'n teimlo nad yw'r canran o 19% o ymwelwyr yn realistig.*
- *Ymddengys bod bwloch o ran y nifer y ddigwyddiadau. Mae'r 'infographics' yn wych ond mae'r nifer ohonynt, a'r tudalennau a roddir iddynt, yn ei gwneud hi deimlo ychydig mwy am yr arddull na'r cynnwys o ran y cydbwysedd â'r strategaeth gyfan.*
- *Hoffwn gael mwy o wybodaeth am waith llwybrau a'r hyn sydd wedi ei gynllunio ar gyfer y dyfodol.*
- *Tudalen 29 - gellid esbonio cymorthdaliadau ffermio yn well. Gellid crynhoi ffigyrau o Brifysgol Aberystwyth i ddangos faint o gymorthdaliadau cyfartalog a dderbynnir gan ffermwyr ucheldir, beth yw eu costau cyfartalog, a faint y byddai eu colledion cyfartalog blynyddol heb gymorthdaliadau*
- *Tudalen 33 - cynllun wardeniaid ifanc. A allai fod mwy o wybodaeth ar sut mae'r cynllun yn cael ei ariannu, gan bwy, a ydynt yn wirfoddolwyr, a yw'n debyg i gynllun prentis lle maen nhw'n cael eu talu?*
- *Rwy'n credu y byddai'n dda cael mwy o bwyslais ar faterion megis ecoleg y mynydd.*
- *Cyflwynwyd y data yn dda ac roedd yn drylwyr. Roedd yn ddarllenadwy iawn.*
- *Mae popeth wedi'i anelu at gael cyn cymaint o bobl ar y mynydd â phosibl. Nid yw hyn yn gynaliadwy ac yn arwain at fwy o erydiad a chynyddu'r risg o ddamweiniau oherwydd gormod o bobl gyda'i gilydd ar rai rhannau cul o'r llwybr.*
- *Teimlo ella fod yr holl bwysau sydd ar y mynydd, yn arbennig ar benwythnosau yn yr haf, ddim ddim wedi dod allan digon clir rhywsut.*
- *Dim yn dangos digon o'r problemau efo parcio, nac yn wneud digon i ddangos y cydbwysedd rhwng cyfanswm effeithia costus yr ymwelwyr a cyfanswm effeithiau buddianol yr ymwelwyr.*
- *Mae'n dasg fawr i grynhoi gymaint o wybodaeth sy'n dangos yr holl wybodaeth gwahanol am yr Wyddfa.*
- *Mae'r adran yma yn gosod allan yn glir yr amrediad eang iawn o weithgarwch sydd yn cymryd lle ar y mynydd. Mae yn nodi ei bwysigrwydd fel cyrchfan yn yr ardal a'r lefelau cynyddol o ymwelwyr sydd yn dod i wneud defnydd o'r mynydd. Mae'r data yn hawdd i'w ddarllen ar arddull yn eglur. O safbwynt amaethu mae'n dda gweld bod y ddogfen amlygu nifer y ffermydd a'r teuluoedd sydd yn ceisio gwneud ei bywoliaeth ar y mynydd. Mae'n amlwg o'r data bod y rhai sydd yn ymweld gyda'r ardal yn gwerthfawrogi y tirwedd sydd ar gael iddyn nhw ac yn ei sgorio yn uchel o ran boddhad. Mae'r adran yn darlunio yn glir bod y lefel defnydd yn cynyddu yn sylweddol iawn dros y blynyddoedd diwethaf sydd wrth gwrs yn rhoi straen ar y mynydd a'i adnoddau. Mae'r astudiaeth achos am ffermio yn ddefnyddiol ar gyfer amlygu sut mae amaethu yn bodoli ar y mynydd a sut mae tirwedd a daearyddiaeth yr ardal yn cyfyngu*

ar yr opsiynau amaethu sydd ar gael yma. Croesawir gweld bod yr iaith Gymraeg hefyd wedi cael ei mesur yn yr ardal ehangach fel rhan o'r data, gan ei bod yn rhan o fywyd y rhai sydd yn byw ar, ac yng nghyffiniau y mynydd o ddydd i ddydd.

- *Mae'r adran hon yn wych. Mae'n addysgiadol iawn, mae'r 'infographics' yn cyfleu ffeithiau pwysig yn effeithiol oherwydd ei bod hi'n hawdd eu cofio ac felly'n lledaenu'r gair. Nid yn unig hynny ond mae hefyd yn eich cael i ledaenu'r gair – gan fod rhai o'r ffeithiau mor syfrdanol (ee 1 sgip wedi'i lenwi gyda sbwriel bob dydd ym Mhen-y-Pass yn yr haf!) Ac mae'n tynnu sylw at y pwysau ar y mynydd gan ymwelwyr. Mae'n galw ar frys ac, yn fy marn i, yn llwyddo yn y nod o annog parch tuag at y mynydd. Mae hefyd yn amlygu agweddau positif y galw hwn o ran manteision economaidd a chyflogaeth yn yr ardal leol, sy'n galonogol.*
- *Awgrym ar gyfer gwella tudalen 25: A oes unrhyw ffeithiau / ffigyrau i dynnu sylw at faint o ymchwiliad sy'n digwydd / wedi'i wneud yn yr ardal (gallai annog cydweithio) e.e. Faint o ddegawdau o fonitro? Ar hyn o bryd mae'r ffocws ar bwy ydi'r ECN, yn hytrach na'r ymchwiliad a wnânt yn yr ardal, y cyfoeth o ddata sydd ar gael, a pha effaith y mae hyn wedi'i gael o ran diogelu'r amgylchedd.*
- *Nid oes unrhyw fanylion ar nifer y bobl sy'n gwneud eu bywoliaeth drwy weithio bob dydd yn yr ardal hy arweinwyr mynydd, hyfforddwyr mynydda ac ati ac rhai sy'n gweithio rhan o'u amser yn yr ardal.*
- *Gellid wneud gyda mwy o fanylion ynghylch pwy yw'r ymwelwyr presennol, ystod oedran, cenedligrwydd, rhyw, rhywioldeb.*
- *Nid oes cyfeiriad at yr amgylchedd hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys safleoedd o arwyddocâd cenedlaethol, megis Dinas Emrys, a'i chwedlau, yn ogystal ag ystod eang o aneddiadau cynhanesyddol, anheddiad ucheldirol o ddyddiadau canoloesol a diweddarach, eglwysi canoloesol, gan gynnwys hen eglwys priordy Beddgelert, cestyll canoloesol, safleoedd diwydiannol gan gynnwys pyllau copr a llechi. Aneddiadau hanesyddol gan gynnwys Beddgelert, Nant Peris a Chaernarfon. Gall Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd roi cyngor ar arwyddocâd yr amgylchedd hanesyddol, a'r cyfraniad y mae'n ei wneud i gymeriad yr ardal. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol, ac yn cynghori ar bob mater sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng ngogledd orllewin Cymru.*
- *Mae'r rhan fwyaf o'n gwesteion yn Nyffryn Conwy yn dod yma i "wneud" Yr Wyddfa. Mae dylanwad y Copa yn ymestyn ymhellach na'ch 'radiws' 5 milltir mewn gwirionedd. Felly dylid cynnwys cludiant cyhoeddus y tu hwnt i'r radiws presennol. Mae yna gylch ehangach yng Nghaernarfon, Blaenau, Conwy, Bangor, y mae angen ei gynnwys mewn unrhyw grynnodeb o faterion trafndiaeth.*
- *Rwy'n credu ei fod yn dda ac yn glir.*
- *Yn gyffredinol, mae'r data ar gyfer ardal yr Wyddfa yn dda. Fodd bynnag, gellid cynnwys mwy i gysylltu â setiau data cenedlaethol. Byddai'r tueddiadau cenedlaethol o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau allweddol (cerdded, dringo ac ati) yn helpu i roi cyd-destun ac amlygu'r galw yn y dyfodol (Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru -*

<https://naturalresources.wales/media/681025/welsh-outdoor-recreation-survey-key-facts-for-policy-and-practice-2016.pdf>

- Dewis ardderchog o bynciau ond lle mae'r cwestiwn o faint o 'arweinwyr' sy'n gweithio ar yr Wyddfa a faint o ddiwrnodau y flwyddyn, efallai y gallai'r MTA helpu.



Sylwadau

- Ddim cweit yn siwr beth sy'n cael ei awgrymu ym mhwynt 4. Nid ydym angen prosiectau i reoli y tir, mae hynny wedi cael ei wneud yn berffaith glir o fewn y bartneriaeth. Dylid gadael i hynny ddigwydd o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad e.e. Glastir.
- Angen rheoli'r ymwelwyr a'r mewnfudwyr yn well.
- Mae'r ymateb yn cymeryd i ystyriaeth nifer o ofynion gwahanol. Hoffwn weld mwy o gynlluniau penodol (ond mae'n siwr fod hyn i ddod).
- Gofalu fod barn pobl leol yn cael ei gofnodi.
- Mae ffermio presennol yr ucheldir yn cynnal anialwch ucheldirol sydd heb lawer o fioamrywiaeth. Hefyd, os ydych chi am ddiogelu gwasanaethau bws Sherpa, mae angen gwneud rhywbeth am tacsis CK yn 'towntio' am fusnes ym mhob arhosfan bws rhwng Llanberis a Phen y Pass. Hyd yn oed ar ddiwrnodau prysur, dim ond un rhan o dair i hanner y bysiau sy'n llawn wrth i'r gyrwyr tacsï fynd i'r afael â phobl sy'n aros mewn arosfannau bysiau a than-brisio'r gwasanaeth bws.


- *Mae Rhyd Ddu a llethrau Gorllewinol yr Wyddfa wedi cael eu diystyru ers llawer rhy hir. Ar hyn o bryd rydym yn cael ein bygwth gyda linellau melyn yn y pentref oherwydd nad yw PCE a Chyngor Gwynedd yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen, ee trafnidiaeth gyhoeddus a pharcio digonol.*
- *"Mae gan bobl leol, busnesau a chymunedau fwy o ddealltwriaeth o fanteision twristiaeth" Mae hyn yn teimlo'n hynod nawddoglyd - credaf fod llawer yn deall hyn yn barod gan fod gymaint yn dibynnu ar dwristiaeth fel ffynhonnell incwm allweddol. Byddwn wedi hoffi darllen rhywfaint mwy o weledigaeth ynglŷn â mynd i'r afael â'r heriau y mae'r Wyddfa'n eu cynnig i gymunedau (fel parcio i drigolion ac yn arbennig y rheini sy'n gorfod gyrru i mewn i gymunedau i gael mynediad at gyfleusterau sylfaenol, ac yna'n ategu'n hynny'n glir - tai fforddiadwy.*
- *Yn darllen y ddogfen rwy'n methu gweld gweledigaeth go iawn. Mae'n ymddangos ei fod wedi'i ysgrifennu i longyfarch rhai sefydliadau ar yr hyn maen nhw wedi'i wneud hyd hyn.*
- *Mae'r amcanion yn rhoi'r argraff o rywfaint o eglurdeb ac anhyblygrwydd, ond rwy'n teimlo fod yna fwlch digonol i ganiatáu i amcanion newydd ymddangos/cael eu bodloni. Ar y cam hwn o'r ymgynghoriad, byddwn i'n disgwyl felly gweld rhywbeth fwy cadarn (e.e. byddwn ni'n adeiladu cyfleusterau toiled mewn lleoliadau A, B a C ...)*
- *Pob un o'r dyheadau yn dda, ond gormod 'buzz words' ar dudalen 38 - eglurir y rhain yn well yn nes ymlaen yn y cynllun*
- *Mae llawer o waith paratoi da wedi mynd i mewn i'r ddogfen.*
- *Nid yw'n ddogfen ddi-uchelgais na'n rhy uchelgeisiol.*
- *Unwaith eto, mae'r ffocws ormod ar "faint o bobl allwn ni ei gael ar yr Wyddfa" yn hytrach na "faint o bobl allwn ni ei gael i Eryri". Byddai'n well gwella mynediad cyffredinol i bob llwybr yn Eryri.*
- *Cytuno'n llwyr bod angen gweithio mewn partneriaeth.*
- *Gofalu bod barn pobl leol yn cael ei gofnodi.*
- *Mae'n dda gweld bod parch yn cael ei gydnabod fel rhan greiddiol o'r weledigaeth. Yn fwy na dim mae hyn yn bwysig iawn i sicrhau unrhyw lwyddiant. Mae angen addysgu y rhai sydd yn ymweld (ac yma eisoes) am yr angen I ddangos parch tuag at y tirwedd a'r rhai sydd yn byw a gweithio oddi mewn iddo. Mae cryfhau dealltwriaeth y rhai sydd yn ymweld a'r mynydd o'u heffaith ar yr ardal yn hanfodol. Mae cryfhau a datblygu'r seilwaith ddigidol o amgylch Yr Wyddfa l'w groesawu. Mae'n fuddiol o ran cynnig gwybodaeth am yr ardaloedd. Mae buddiannau diogelwch I ymwelwyr a thrigolion o gael rhwydwaith telegyfathrebu gref o amgylch y mynydd ac mae'n fodd hefyd o gefnogi busnesau o fewn yr ardal. Croesawir pwyslais ar sicrhau economi ffyniannus ac mae amgylchedd iach yn gymorth I dwristiaid a Ffermwyr fel ei gilydd. Profiadau da sydd yn sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu plesio ac mae angen I hynny fod yn flaenllaw yn ein meddyliau. Y gamp wrth gwrs ydi fframio yr hyn oll oddi mewn I arwyddair y Parc 'LLe I enaid gael llonydd' ac mae sicrhau bod y llonydd yma yn parhau I fod ar gael*

yn hanfodol I bawb sydd ynghlwm a'r Wyddfa. Mae'r hyn sydd wedi ei nodi yn yr adran yma yn cyd-redeg ar sawl lefel gyda Deddf Llesiant Cenhedlaethau'r Dyfodol 2015, Llywodraeth Cymru ac byddai yn fuddiol dadansoddi hyn fel rhan o'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

| <p>2.2</p> | <p>Prif faterion a godwyd yn wreiddiol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffyg parch (e.e. cŵn oddi ar dennyn, cerdded dros a difrodi waliau, sbwriel ac ati) • Digwyddiadau elusenol/Digwyddiadau (dim cyfathrebu a thîrfeddiannwyr a ddim yn talu) • Parcio a thrafnidiaeth (Dim digon o lefydd a pharcio mewn lleydd peryglus) • Llwybrau a mynediad (pobl yn mynd oddi ar lwybrau) • Marchnata Croeso Cymru <p><i>Main issues raised previously included:</i></p> | |

| | | |
|-----|---|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • <i>Lack of respect (e.g. dogs not on leads, walking on and damaging walls, littering etc)</i> • <i>Charity events/Events (no communication with landowners and don't pay)</i> • <i>Parking and transport (not enough spaces and people park in dangerous places)</i> • <i>Paths and access (people going off paths)</i> • <i>Visit Wales marketing</i> | |
| 2.3 | <p>HP - Cynllun am ddangos be mae'r Bartneriaeth am ei wneud erbyn 2030 a sut bydd adnoddau yn cael eu defnyddio - hwn yn gyfle i chi ddeud os oes unrhywbeth wedi cael eu fethu. Gall y ddogfen gael ei ddefnyddio fel dull lobïo i ddenu buddsoddiad mewn i'r ardal</p> <p><i>HP – The Plan shows what the Partnership will do by 2030 and how resources will be used – this is an opportunity for you to tell us if anything has been missed. This document could be used as a lobbying tool in order to attract investment into the area</i></p> | |
| 2.4 | <p>GW – falch o gael bod yn rhan o'r broses ac yn cynrychioli tîrfeddianwyr / amaethwyr er mwyn cael cydbwysedd rhwng yr ochr werdd a thîrfeddianwyr – rhoi llais i ffermwyr. ChW yn cytuno ac yn gefnogol iawn i'r Cynllun ac Eryri yn arwain y ffordd ar y math yma o brosiect o'i gymharu a ardaloedd/Parciau eraill</p> <p><i>GW – happy to be part of the process and to represent landowners / farmers in order to have a balance between the green side and landowners – giving a voice to farmers. ChW agrees and very supportive to the Plan and Snowdonia are leading the way in this type of project, when compared to other areas/Parks</i></p> | |
| 2.5 | <p>ChW – Twristiaeth yn bwysig ond pwysig peidio anghofio amaethwyr yn yr holl beth, felly mae'n dda bod amaethwyr yn cael eu gweld fel rhan allweddol o'r Parc a ambell 'quick win' wedi eu cyflawni yn barod</p> <p><i>ChW – Tourism is important but important to not forget about farmers so it's great to see that farmers are seen as a key part of the Park and some 'quick wins' have already been achieved by this project</i></p> | |
| | <p>IP – NFU wedi bod yn ran ers y dechrau a mae be mae'r Cynllun yn ceisio ei gyflawni yn drawiadol, h.y. cysylltu tîrfeddianwyr, defnyddwyr tir ac ymwelwyr. Mae perthynas y Parc a thîrfeddiannwyr yn llawer iachach yn Eryri nag ardaloedd eraill yng Nghymru. Hon yn</p> | |

| | | |
|--|--|---------------------------|
| | <p>ddogfen gytbwys iawn sydd yn anodd i'w chyflawni o ystyried diddordeb pawb yn yr ardal.</p> <p><i>IP – NFU has been involved since the start and what the Plan aims to achieve is striking, i.e. connecting landowners, users of the land and visitors. The relationship between the Park and landowners in Eryri is much healthier than in other parts of Wales. This document is well balanced which is difficult to achieve when considering the varying interests people have in the area.</i></p> | |
| <p>Eitem Agenda 3</p> <p>Agenda Item 3</p> <p>3.1</p> | <p>HP – Mae'r mater o 'barch' wedi cael ei roi fel pwynt rhif 1 ar dudalen 38 o'r Cynllun. Canolig iawn i bawb a wedi taro pwynt cryf. Angen gwneud siwr fod pobl yn gweld yr ardal fel rhywle i barchu a nid dim ond ei ymweld. Partneriaid i gyd am fod a'r ru'n un neges am Yr Wyddfa a phasio y neges o barch ymlaen i bobl</p> <p><i>HP – The issue of 'respect' has been put down as point 1 on page 38 of the Plan. This point is central to everyone and has been put forward strongly. Need to make sure that people see the area as somewhere to respect and not just as a visitor attraction. Partners will all have a shared message about Yr Wyddfa to pass on to people</i></p> | |
| 3.2 | <p>ChW – holi os oes modd rhoi rhid tudalen ar bob tudalen</p> <p><i>ChW – asks if page numbers can be put on every page</i></p> | <p>Tîm Partneriaethau</p> |
| 3.3 | <p>HP – Tudalen 47 yn dangos y sefyllfa bresennol a lle hoffem fod, a sut am fynd ati a chyflawni hynny – neud siwr fydd y partneriaid i gyda gyda'r ru'n un neges. Bwriad o greu tudalen wê er mwyn cael un neges gyson gen bawb</p> <p><i>HP – Page 47 shows the current situation, where we would like to be and how we plan to get there – need to make sure that all partners have the same message. Intention of creating a website to get one message from everyone</i></p> | |
| 3.4 | <p>Rhoddodd CM ddiweddariad ar gynllun 'young rangers' – lot o waith gyda cymunedau ac ysgolion lleol wedi ei gyflawni. Bu teithiau ysgol i fferm JD a FD a pawb wedi mwynhau. Gwaith hefyd yng ngardd cymunedol Beddgelert a gweithio gyda Plas Gwynant sydd yn dod a phlant o bell a wardeiniaid y Parc yn cynnal gweithgareddau efo nhw a pasio y neges o barchu cefn gwlad ymlaen</p> | |

| | | |
|-----|---|--|
| | <p>CM gave an update on the 'young rangers' scheme – a lot of work has been done with local communities and schools. School visits were made to JD and FD's farm which everyone enjoyed. Work has also been done in Beddgelert's community garden and also work with Plas Gwynant who bring children in from far away. The Park's wardens have been holding activities with them and passing on the message of respecting the countryside</p> | |
| 3.5 | <p>RhR – ers mis Medi/Tachwedd 2016, mae yna bob ifanc lleol wedi bod yn helpu am ddiwrnod o'r mis er mwyn dysgu sgiliau, cadwraeth, mynediad ac ati, gyda'r bwriad o wella eu parch/ymwybyddiaeth o'r materion o oed cynnar. Cynllun peilot a wedi bod yn lwyddiannus hyd hyn</p> <p>RhR - Since September/November 2016, young local people have been helping out for a day a month in order to learn skills, conservation, access etc, with the intention of increasing their respect/awareness of issues from an early age. A pilot scheme which has proved successful so far</p> | |
| 3.6 | <p>CM – wedi gwneud lot o waith efo pobl lleol ond angen gwneud siwr bod ymwelwyr yn dysgu am barch hefyd. Wedi gwneud gwelliannau o ran negeseuon a mynediad at wardeiniaid ym Mhen y Pass hefyd</p> <p>CM – have undertaken a lot of work with local people but also need to make sure that visitors learn about respect. Have made improvements in terms of the messages given out and access to wardens in Pen y Pass</p> | |
| 3.7 | <p>EW – gwaith canmoladwy iawn, blynyddoedd yn ol roedd wardeiniaid yn mynd at blant ysgol yn Lloegr ac ati er mwyn eu addysgu. RhO – mae gwasanaeth addysg y Parc yn gwneud rhywfaint o hyn ond adnoddau yn fater l'w ystyried. CM – Plas Tan y Bwlch yn gyfle i wneud hyn gyda plant sydd wedi dod o bell. AD – Hyfforddi yr hyfforddwyr mewn canolfannau awyr agored i basio negeseuon ymlaen hefyd</p> <p>EW – praised the work being done. Years ago the wardens used to visit schools in England in order to educate them. RhO – the education section within the Park is doing some of this but resources is an issue. CM – Plas Tan y Bwlch is a good opportunity to do this with children staying from far away. AD – Educating/training the instructors in outdoor centres to pass the messages on.</p> | |
| 3.8 | <p>CM – wardeiniaid gwirfoddol rhwng mis Mawrth a Hydref gyda tua 4 bob dydd Sadwrn/Sul. Mynd ati i gerdded llwybrau, casglu sbwriel a</p> | |

| | | |
|------|---|--|
| | <p>rhoi cyngor i bobl a rhoi gwyneb i'r Parc ar y mynyddoedd. IP – sut mae pobl yn ymateb iddynt? CM - llawer ddim eisiau gwybod ond llawar yn dangos diddordeb. Mae nifer y gwirfoddolwyr yn golygu na chaiff unrhyw ochr o'r mynydd ei anghofio/anwybyddu</p> <p><i>CM – volunteer wardens between March and October – around 4 every Saturday/Sunday. They walk the paths, collecting litter and give advice to walkers and provide a presence for the Park on the mountains. IP – do visitors engage with them? CM – many don't want to know while many show interest. The number of volunteers means no side of the mountain is forgotten about</i></p> | |
| 3.9 | <p>AD – Grant gen Lywodraeth Cymru ar gyfer cael fan dehongli. Gallai ddysgu pobl am y côd cefn gwlad a diogelwch, a'r ffaith ei fod yn symudol yn golygu gall y neges gael ei chyfleu ym mhobman. GO – syniad iddi ymweld a meysydd gwersylla hefyd</p> <p><i>AD – Grant from Welsh Government for an 'interpretation van'. Can help in educating people about the countryside code, and the fact that it is mobile will mean that the message can be given out in all locations. GO – an idea for it to visit camping sites</i></p> | |
| 3.10 | <p>HP – Cynllun Rhodd Ymwelwyr – arian nol at yr ardal e.e. prosiectau penodol ac isio cymunedau ddweud yn y dyfodol pa brosiectau ddylai gael y cyllid. Dal angen mwy o fusnesau i brynu mewn i'r syniad, ac angen tua 200 ohonynt er mwyn cael effaith gwirioneddol ond y neges o barch yn byswig ynghyd ar pres</p> <p><i>HP – Visitor Giving scheme – money back to the area e.g. specific projects and in the future will want communities to tell us which projects should receive funding. We still need more businesses to sign up – around 200 would make a real impact, but the message of respect is important alongside the money</i></p> | |
| 3.11 | <p>ChW – Digwyddiadau – yn aml ddim yn dweud i neb eu bod yn dod – dod yma, gwneud pres ac yna gadael – angen ceisio eu cywilyddo rhywsut neu cyflwyno system trwyddedu er mwyn cael pres i'r cymunedau ganddynt</p> <p><i>ChW – Events – often don't tell anyone that they are coming – come here, make money then leave – need to try and shame them somehow or implement a licencing scheme in order to get money back to the communities</i></p> | |

| | | |
|------|--|--|
| 3.12 | <p>HP – Pete Rutherford (APCE_ wedi trafod efo’r LAG ynglyn a digwyddiadau ac yn eu ennog i gyfrannu e.e. drwy Rhodd Eryri</p> <p><i>HP – Pete Rutherford (SNPA) has discussed with the LAG about these events and encouraging them to contribute e.g. through Rhodd Eryri</i></p> | |
| 3.13 | <p>HP yn cyfeirio at dudalen 46 o’r Cynllun. GW yn nodi y gellir awgrymu’n gryf yn yr adran yma o’r Cynllun, fod unrhyw ddigwyddiadau yn trafod gyda tirfeddianwyr. HP – hyn wedi ei nodi yn barod yn y LAG</p> <p><i>HP – referred the group to page 46 of the Plan. GW noted that this section could be used to strongly suggest that events contact landowners prior to arranging. HP – this already been noted within the LAG</i></p> | |
| 3.14 | <p>ChW – Ceisio sefydlu gwell cyfathrebu rhwng Cyngor Conwy, Cyngor Gwynedd a’r Parc Cenedlaethol, o ran trefnu digwyddiadau, fel gweithred. HP – hyn yn y Cynllun yn barod, i’w sefydlu o fewn 5 mlynedd a fe fydd fframwaith monitor yn cael ei sefydlu hefyd</p> <p><i>ChW – try and establish better communication between Conwy Council, Gwynedd Council and the National Park regarding events as an action. HP – this is in the plan to be established within 5 years and a monitoring framework will be set up as well</i></p> | |
| 3.15 | <p>Nododd JH ac EW nad oedd unrhyw un wedi cysylltu a nhw ynglŷn â digwyddiadau mewn 8 mlynedd. GW – dyma un o’r pethau fydd y Cynllun yn ceisio ei wella</p> <p><i>JH and EW noted that no-one had contacted them regarding events in 8 years. GW – this is one of the things that this plan will try and address</i></p> | |
| 3.16 | <p>JH – mae gwersylla gwyllt yn broblem. GO – dim cysylltiad a thirfeddianwyr ynglŷn â’r ‘Fell Race’</p> <p><i>JH – wild camping is a problem. GO – no contact with landowners in terms of the ‘Fell Race’</i></p> | |
| 3.17 | <p>EVW – lot o’r trefnwyr digwyddiadau yn dweud eu bod yn casglu pres i elusennau, ond ddim yn siwr gyda rhai. Angen ffordd o wneud iddynt dalu gan nad oes llawer ohonynt yn dangos dim parch ac os fyddai raid iddynt dalu efallai byddai hynny’n newid. RhO – unwaith mae rhai</p> | |

| | | |
|------|--|---|
| | <p>o'r trefnwyr yn gweld mai dim y Parc sydd berchen y tir, nid ydynt yn trafferth cysylltu a'r tirfeddiannwr. HP – mae gennynt hawl cyfreithiol i redeg digwyddiad ar lwybr troed ond yn torri'r gyfraith os yn mynd oddi arno.</p> <p><i>EVW – a lot of the event organisers say that they are collecting money for charities, but doubt it in some instances. Need a way to make them pay since many don't show any respect to the area, and if they had to pay then that may change. RhO – once some of the organisers see that the Park don't own the land they don't bother contacting the landowner. HP – they have a legal right to run events on footpaths, but break the law if they go off it i.e. they must have permission from the landowners to run an event on open access land</i></p> | |
| 3.18 | <p>RhO – dros y 5 mlynedd nesaf gall yr awdurdodau i gyd roi system at ei gilydd a olygai fod pawb yn gwybod pan mae yna ddigwyddiad ar y ffordd. HP – nodi mai dyma pam mai'n bwysig cael ebost /rhif ffon pobl er mwyn gallu cysylltu'n gyflym a nhw e.e. os trafferthion sbwriel, digwyddiadau ac ati.</p> <p><i>RhO – over the next 5 years the authorities could create a joint system which meant that everyone knew when an event was coming. HP – this is why it's important to get people's email/phone number in order to get in contact quickly e.g., if littering issues, events etc</i></p> | |
| 3.19 | <p>GO – motobeics yn broblem ar Moel Eilio HP – angen dweud wrth yr heddlu am hyn. RhO – werth ceisio tynnu llun o'r cerbydau a'u dangos i'r heddlu. ChW – pwysig cadw dweud wrth yr heddlu er mwyn iddynt adnabod patrymau a cael presenoldeb ar ddyddiau ble meant yn debygol o fod yno. HP – mwyaf byd gnewch chi gysylltu a'r heddlu yna mwya tebygol ydyn nhw o geisio atal y broblem</p> <p><i>GO – motorbikes a problem on Moel Eilio. HP – need to notify the police regarding this. RhO – worth attempting to take pictures of the vehicles to show the police. ChW – important to keep telling the police about it so that they can recognise patterns and have a presence on days likely to be an issue. HP – the more its reported the more likely the police are to do something about it</i></p> | |
| 3.20 | <p>EVW – niferoedd yn cymryd rhan yn y 'Rat Race' yn tua 1200 o bobl. Mae hyn yn creu difrod mawr i'r tir a rhoi pwysau ar adnoddau'r Parc a thirfeddianwyr. EVW wedi gofyn iddynt gyfrannu pres i'r Ambiwlans Awyr a wedi cael £250 flwyddyn ddiwethaf. Hyn wrth ystyried fod pob person a gymerodd rhan yn talu £150 i wneud hynny. HP – Mae Pete</p> | <p>Pete Rutherford i adrodd nol</p> <p>Pete Rutherford to report back</p> |

| | | |
|------|---|--|
| | <p>Rutherford (APCE) wedi bod yn trafod hyn a efallai y byddai'n syniad iddo adrodd nol ar ei gyfarfodydd drwy'r LAG</p> <p><i>EVW – the number taking part in the 'Rate Race' is around 1200. This damages the land significantly and puts pressure on the resources of the Park and landowners. EVW asked them to donate money to the Air Ambulance and received £250 last year. This whilst considering that each person registered had to pay £150 to do so. HP – Pete Rutherford (SNPA) has been discussing this with Rat Race and perhaps it would be an idea for him to feed back to LAG on his discussions</i></p> | |
| 3.21 | <p>HP – problemau parcio (e.e. dim digon o lefydd, tocynnau parcio, wardens traffig ac ati) CM – Arolwg Cwellyn yn dangos fod lot mwy yn parcio yma nag oedd yn arfer gan ei fod yn cael ei farchnata fel yr ochr dawelach ac yn lwybr haws i fynd fyny'r Wyddfa. Gwaith gwella'r maes parcio wedi ei gwblhau a Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhoi llinellau melyn dwbl o gwmpas. JH yn nodi fod llinellau melyn yn gwrthio pobl allan o lefydd fel Rhyd Ddu ac fod angen gwell meysydd parcio a gwell system bysiau EVW – dal 30 o geir ar y ffordd yn ystod gwyl y banc er bo llefydd parcio wedi eu gwella</p> <p><i>HP – parking issues (e.g. not enough spaces, parking tickets, traffic wardens etc) CM – Cwellyn survey showed that more people park in this area than did previously as it is being marketed as the quieter side of the mountain and an easier path up Snowdon. Work to improve car park has been completed and Gwynedd Council has completed double yellow lines work. JH – noted that the double yellow lines push people out of villages such as Rhyd Ddu and there is a need for better car parks and better bus service. EVW – still 30 cars parked on the road during the bank holiday despite the car park improvements</i></p> | |
| 3.22 | <p>ChW – posibilrwydd parcio ar dir tîrfeddianwyr. HP – gallu gwneud hyn am 28 diwrnod heb ganiatad cynllunio, yn cael ei wneud yn Nant Peris RhO a allai CNC chwarae rhan? EVW – nodi pwysigrwydd cael yswiriant felly os am wneud hyn. RhO – posibilrwydd UAC/NFU chwarae rhan yn hyn</p> <p><i>ChW – possibility of parking on landowner land. HP – can do this for 28 days without planning permission, already being done in Nant Peris. RhO – could NRW play a role in this? EVE – important to get insurance if going to do this. RhO – possibility of FUW/NFU playing a part in this</i></p> | |
| 3.23 | <p>HP – Llwybrau a mynediad. CM – gwaith llwybrau o flwyddyn i flwyddyn e.e. Mwynwyr, Cwellyn – dau dim o 4 a Hywel yn gyfrifol amdanynt. Blaenoriaethu lle i weithio arno. Gwaith gyda</p> | |

| | | |
|------|---|--|
| | <p>gwirfoddolwyr o ran cynnal a chadw, draenio gwell, gwyneb gwell ar lwybrau a wnaiff helpu sicrhau fod pobl yn cadw i'r llwybrau. RhO yn annog mynychwyr y cyfarfod i annog tirfeddianwyr eraill i gysylltu a'r wardeiniaid os oes unrhyw broblemau</p> <p><i>HP – Paths and access CM – footpath work from year to year e.e. Miners, Cwellyn – two teams of 4 managed by Hywel. Prioritising where to undertake work. Work with volunteers in terms of maintenance, better drainage, better path surfacing, which will all help to ensure that people stay on the paths more. RhO – encouraged those in attendance to tell other landowners to contact the warden team if any problems arise</i></p> | |
| 3.24 | <p>CM – Cylchdaith yr Wyddfa – rhain am fod yn lwybrau haws ac annog pobl i aros mewn trefi/pentrefi lleol a chysylltu a chymunedau. HP – pobl lleol yn ei ddefnyddio hefyd. JH – un problem o gynyddu mynediad ydi gwella mynediad cŵn at ddefaid. EVW – creithiau ar fynyddoedd yn broblem a sut ydym am fynd ati i gadw pobl ar y llwybrau. Mae hyn yn creu erydiad sydd yn annodd i'w atal – pwysigrwydd amddiffyn Yr Wyddfa am genhedlaethau i ddod.</p> <p><i>CM – Wyddfa circular route - these will be easier paths and will encourage people to stay within local towns/villages and to connect with communities. HP – local people use them too. JH – one issue with improving access is that dogs have better access to sheep. EVW – scars on mountains an issue and how can we ensure that people stay on the paths. This creates erosion which is hard to halt – importance of protecting Yr Wyddfa for generations to come.</i></p> | |
| 3.25 | <p>HP – Marchnata Croeso Cymru – wedi derbyn adborth eu bod yn farchnata gwael o ran hybu Crib Goch a'r peryglon yn gysylltiedig a hyn.</p> <p><i>HP – Visit Wales Marketing – received feedback that it was poor marketing in terms of encouraging use of Crib Goch and the dangers associated with this</i></p> | |
| 3.26 | <p>RhO – Brandio cynnyrch – Cig Oen Yr Wyddfa – cael trafodaethau efo FD a JD a syniad o hybu y brand mewn gwestai, bwytai a 'take-aways' lleol a gweld os oes ganddynt ddiddordeb mewn defnyddio'r cynnyrch lleol. Bosib yn rywbeth i'r adran fedru edrych mewn iddo dros y gaeaf. Gobaith o fedru dyblygu'r model e.e. ardal Cadair Idris os yn lwyddiannus. Proses gymhleth ond werth ei ystyried.</p> | |

| | | |
|---|--|--|
| | <p><i>RhO – product branding – Snowdon Lamb – had discussions with FD and JD regarding the idea of promoting the brand in local hotels, restaurants and takeaways and to see if they have interest in using the product. Possibly something for the department to look into during the winter. Possibility of duplicating the model if successful e.g. Cadair Idris. Complicated process but worth considering</i></p> | |
| 3.27 | <p>HP – tudalen 39, pwynt 4 yn y Cynllun – pwysigrwydd y pwynt ‘Amgylchedd iach a ffyniannus’. JH – a all y Parc glymu mewn gyda Glastir? RhO – diddordeb o ran gwneud cynllun ffermwyr lleol yn lle Glastir. HP – mantais PES ydy bod ffermwyr yn gallu penderfynny ar sut i gyrraedd y targed.</p> <p><i>HP – point 4 on page 39 of the Plan – the importance of the point noting ‘A healthy and thriving environment’ JH - can the Park tie in with Glastir? RhO – interest in forming a local farmer plan instead of Glastir. HP – benefit of PES is that farmers can decide how they want to reach their target themselves.</i></p> | |
| <p>Eitem Agenda 4</p> <p>Agenda Item 4</p> <p>4.1</p> | <p>RhO yn pwysleisio pa mor bwysig ydy hi i bobl roi mewnbwn i ymgynghoriad y Cynllun. GW – disgwyl sylwadau o bob math o feysydd gwahanol felly pwysigrwydd nodi barn da neu ddrwg am y Cynllun a nodi beth sydd yn dda ynddo achos efalli y byddai person/sefydliad o safbwynt gwahanol yn anghytuno gyda’r pwynt</p> <p><i>RhO highlighted the importance of sharing your views during the consultation period of the Plan. GW – we expect comments from varying viewpoints so it is important to note your views, be it good or bad, and note what it is good within the Plan because perhaps a person/organisation of a different viewpoint might want to take that point out</i></p> | |
| 4.2 | <p>RhO yn diolch i bawb am fynychu ac yn atgoffa pawb mai dyddiad cau yr ymgynghoriad ydy y 7fed o Orffennaf 2017</p> <p><i>RhO thanked everyone for attending and reminded everyone that the closing date for the consultation is on the 7th of July 2017</i></p> | |

Atodiad 3: Sesiwn galw heibio - 4.7.17

Crynodeb adborth o sesiwn galw heibio Yr Wyddfa yn Llanberis.

| Yr Wyddfa Heddiw | | |
|--|----------------|------------|
| Ydych chi'n hapus ag ystod a chywirdeb y data a gynhwysir? | | |
| Anhapus | Cymharol Hapus | Hapus iawn |
| 0 | 0 | 3 |
| Sylwadau | | |
| Cyffredinol | | |
| Cynllun a dyluniad hawdd ei ddarllen | | |
| Graffeg a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn glir iawn – hawdd i weld y ffeithiau | | |
| Inffograffeg yn gwneud y wybodaeth yn hawdd ei ddaeall | | |
| Staff gwybodus | | |
| Gwybodaeth cywir iawn | | |
| Gwybodaeth gwyh wedi ei ddarparu! Da gweld yr holl bartneriaid yn cyd-weithio. | | |
| Graffeg gwyh i ddangos yr ystadegau. | | |
| Heriau i ofalu am y mynydd | | |
| Diddorol gweld pa mor fawr yw'r broblem sbwriel – gwelais hyn fy hun a mae'n tynnu oddi ar yr ardal | | |
| Byddai'n dda cydweithio a thargeddu ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar y copa (Rheilffordd Yr Wyddfa) | | |
| Cyflogaeth twristiaeth yn dymhorol? | | |
| Angen cydweithio i amddiffyn y mynydd – sbwriel a gwastraff dynol | | |
| Angen dysgu ymwelwyr i fod yn fwy cyfrifiol o'i sbwriel ac iddynt barchu y mynydd | | |
| A wnaethoch chi holi ymwelwyr pam iddynt ymweld a'r ardal? | | |
| Cylch blynyddol | | |
| Byddai asesu tueddiadau tymhorol yn ddiddorol – beth sy'n digwydd/beth yw'r amseroedd brig neu waethaf ar gyfer parcio/difrod i geir | | |
| Pobl leol a'r economi leol | | |
| Byddai'n dda gweld ystadegau ffermio ar gyfer Eryri er mwyn gallu cael cymhariaeth gwell a thwristiaeth o fewn y cynllun. | | |

Yr Wyddfa yn 2030 – Ein gweledigaeth

Ydych chi'n hapus gyda'r weledigaeth ar gyfer Yr Wyddfa yn 2030?

Anhapus

Cymharol Hapus

Hapus lawn

0

1

6

Sylwadau

Cyffredinol

Gweledigaeth wych

Y WELEDIGAETH A OSODWYD YN WYCH

Gweledigaeth ar gyfer 2030 yn rhy bell i ffwrdd. Angen cynllun byr-dymor i ddatrys y prif faterion fel parcio ym Mhen y Pass.

GWELEDIGAETH WYCH!

Gweledigaeth dda, wedi ei ystyried yn drwyadl

Y weledigaeth yn edrych yn dda.

1. Parch at y mynydd, pobl leol, cymunedau, diwylliant a thwristiaeth

Mae'n wych clywed am yr angerdd dros yr iaith Gymraeg. Fel rhywun newydd i'r Parc rwyf eisiau dysgu'r iaith ac am y diwylliant, yn ogystal a harddwch yr ardal, ond rwyf yn gweld dysgu'r iaith yn anodd. Rwyf yn glyfar, ond ddim yn pwysu (?) – ddim yn siwr beth yw'r ateb!

Dim son am ysgolion, angen dechrau'n fuan

2. Isadeiledd ardderchog a gwasanaethau cyd-gysylltiedig

Telathrebu llawn yn gynt!

Does ddim angen gwella telathrebu – cadw'r mynydd yn glir o bobl yn gwneud galwadau ffôn neu ar y rhyngrwyd. Gwella'r telathrebu yn y trefi a'r pentrefi lleol.

Cytuno yn enwedig a gwelliannau telathrebu – pobl yn ddibynol ar ffonau symudol ar bopeth dyddiau yma e.e. gallai helpu gyda cael mynediad at y rhagolygon tywydd diweddaraf

[cytuno a'r pwynt am] telathrebu – gwell signal ffôn

[cytuno a'r pwynt am] gwell rhagolygon tywydd – Mae'r Wyddfa'n gyfraith yno'i hun!

Gwybodaeth tywydd mwy hygyrch a diweddar

Angen mwy o wybodaeth yn waelod Llwybr Llanberis, ac hefyd yr oll grwpiau cerdded sydd yn dod angen i'r instructor ddweud wrthynt y rheolau cefn gwlad cyn iddynt cychwyn cerdded.

Mwy o wybodaeth yn y manau o ddi-ddordeb – ydy pobl ar yr Wyddfa yn gwybod am y hanes mwyngloddio? Pam nad oes pysgod yn y llynnoedd?etc

[cytuno a'r pwynt allweddol] cyfleusterau (toiledau ac ati). Nid yw'r rhai presennol yn ddigon da.

3. Economi leol iach a ffyniannus sy'n gwasanaethu pobl leol, cymunedau a thwristiaid

4. Amgylchedd iach a ffyniannus

Ni does digon o son am y dynodiad 'awyr dywyll' – ymwelwyr i unrhyw dŷ? Rwyf o hyd yn rhyfeddu ar yr awyr yn y nos

Mae sôn am reolaeth cadwraethol o safleoedd gwarchoddedig – beth am reolaeth cadwraethol o'r gweddill

Efallai cael mwy o ffocws ar fywyd gwylt – mae gan Eryri adar a physgod prin sydd yn arbennig. Mae hyn i gyd yn farchnad enfawr

Mae sbwriel yn broblem mawr iawn iawn – fel ymwelwydd rheolaidd rwyf wedi clirio bagiau sbwriel llawn allan o'r llwybr ☹

Datrys y broblem sbwriel

5. Profiad ymwelwyr o'r radd flaenaf

Byddai o werth edrych ar fodel AC Seland Newydd – mae'r modd y maent yn croesawu a rhoi *gwybodaeth* i ymwelwyr yn *arbennig*

Y Cynllun Gweithredu

Ydych chi'n hapus a'r prif flaenoriaethau?

Anhapus

Cymharol Hapus

Hapus iawn

0

2

5

Sylwadau

Cyffredinol

[Cynllun gweithredu] edrych yn dda – gobeithio caiff ei gyflwyno yn lwyddiannus.

Cynllun gwych!!

Rhan fwyaf o gynnwys y cynllun yn wych! Rwyf wedi cyflwyno nifer o syniadau/sylwadau ond nid yw hyn yn golygu fy mod yn anghytuno

Gallai'r 'hyn rydym yn bwriadu ei wneud/gyflawni fod yn fwy penodol. Sut fyddwch chi yn ei fesur?

Yr economi wledig a chymunedau lleol

Mae brandio'r Wyddfa yn bwysig iawn – pobl/ymwelwyr wrth eu both a 'phethau lleol' – cig/mêl/cwrw/seidr

'Cyfathrebu' a phobl yn yr ardal, ond yr unig beth sy'n cael ei grybwyll yw delio a busnesau a thirfeddianwyr/rheolwyr tir. Beth am y gweddill?

Gwybodaeth ymwelwyr a gwasanaethau

[cynllun gweithredu] Gwych. Ar hyn o bryd mae adnoddau yn brin ym Mhen y Pass ond does dim byd o amgylch gwaelod llwybr Llanberis (os oes yna rwyf wedi ei fethu!) Rhagolygon tywydd ac ati. Hygyrchedd - gorchudd cymylau/glaw ac ati. Gellir cyfyngu hyn i wybodaeth mwy cyffredinol e.e. pa offer i fynd gyda chi ar y mynydd.

Mae hyrwyddo twristiaeth drwy gydol y flwyddyn yn WYCH. Ond – mae angen i chi hysbysebu a defnyddio mwy na'r Wyddfa – mae'n ddibynnol ar y tywydd. Mae'r chwareli llechi yn weithgaredd dydd glawog gwych – a ellir hyrwyddo hyn fwy???

Fe fyddai ffair/digwyddiadau Gaeaf a Nadolig yn denu llawer.

Byddai digwyddiadau Gaeaf yn dda i ymwelwyr ac yn creu incwm a swyddi

"Tymor ymwelwyr estyniedig" – gallai cynnwys ysgolion tu allan i'r ardal helpu â hyn

Cael warden ar brif bwynt mynediad i'r mynydd yn rhoi cyngor ar y tywydd, cyfrifoldebau, sbwriel, cŵn, dillad addas, mapiau a.y.y.b. Croeso i'r mynydd

Awgrymiad: (cael ei ddefnyddio yn yr Eidal). Arwyddion ar waelod pob llwybr i'r copa yn rhoi amseroedd cyfartalog i'r copa ar gyfer 1. Athletwyr 2. Cerddwr 'cyffredin' 3. Teuluoedd a cholorïau cyfartalog a losgwyd. Dylai hyn atal pobl adael rhy hwyr a dangos yr egni sydd ei angen

Angen adnoddau sydd yn hawdd i ymwelwyr i'w canfod i fod yn barod am y mynydd

Isadeiledd a gwasanaethau ymwelwyr

Mae angen uwchraddio cyfleusterau toiledau ar frys (dŵr poeth/sychwyr dwylo/sebon) e.e. Nant Peris. Cyfleusterau gwell i 'campervans' (parcio/gwaredu gwastraff a.y.y.b.)

Byddwn wrth fy modd i'r cynllun i gynyddu mynediad i bobl ag anableddau.

Parcio yn broblem mawr – angen datrys y broblem yn gynt?

Angen cymryd rheolaeth o Pen y Gwryd a'i wneud yn fan i gerddwyr ar ddiwedd y diwrnod

Trafnidiaeth – mae'n hanfodol fod y gwasanaeth Sherpa yn cysylltu a bysiau a threnau eraill. Cerddwyr yn aml eisiau dechrau'n fuan.

Gweithgareddau awyr agored, antur a mynediad

Cylchdaith Yr Wyddfa yn swnio yn WYCH!!! ☺

Angen lleihau effaith defnydd grwpiau ('3 peaks' a.y.y.b)

Cyngor ar reolaeth digwyddiadau [hawdd ei ganfod] – pwy i'w gysylltu – pethau i'w ystyried – sut i gynllunio (Hapus i helpu!) [Tracey Breeze]

Fel trefnwyr digwyddiadau mae'n wych cael cydnabyddiaeth am y cyfraniad mae digwyddiadau yn eu wneud i'r economi. Rydym yn ymwybyddol o'n cyfrifoldebau amgylcheddol. Byddai'n ddefnyddiol cael 'sêl bendith' neu 'côd ymddygiad' ar gyfer darparwyr digwyddiadau.

Os ydych chi am i bobl ifanc gymryd rhan mewn twristiaeth ac i werthfawrogi'r mynydd mae angen i ch gynnwys ysgolion lleol – cynllun ceidwaid ifanc yn wych ond angen eu dal yn ifancach fyth.

Gofalu am yr mynydd

Cynllun am leihad sbwriel? Mae hyn yn fater pwysig ac yn effeithio'n sylweddol ar yr ardal

Addysgu ymwelwyr a'r gymuned leol yn ALLWEDDOL.

Ffocysu ar be sydd yn unigryw i'r Wyddfa ond hefyd gwneud siwr bod ymwelwyr yn parchu a gwerthfawrogi'r profiad maent yn ei gael.

Angen dysgu ymwelwyr gyda'i sbwriel, baw cŵn, ac iddynt peidio a'i daflu ar y mynydd. Os byddai bin baw ci wrth Bont Hanner Ffordd, a Bont Clogwyn, a rhoi gwirfoddolwr yno i'w warchod, efallai dim ond ar benwythnosau a gwylia ysgol.

Sylwadau cyffredniol ac adborth

Darn o waith gwych – cadwch hysbysebu!!!

Gwych. Dogfen dda, hawdd ei darllen.

Rydym wedi gadael ein ebyst – a wnewch chi gadw diweddarau pobl yn rheolaidd os gwelwch yn dda. Cariwch ymlaen a'r gwaith da!

Byddai'n dda mynd ar cynllun i'r cymunedau lleol.

GWYCH. Da gwybod bod gymaint o bobl yn poeni cymaint. Mae pethau angen newid.

Mae'r Wyddfa yn le ac adnodd gwych. Mae'n wych fod sefydliadau gwahanol yn dod at ei gilydd i gynllunio dyfodol llwyddianus i'r ardal ar bobl leol.

Teimlad positif iawn ar ol mynychu'r noson. Gwaith gwych! Cynllun gwych! Cyfnod cyffrous i ddod. Amrywiaeth dda i'r Cynllun

Atodiad 4: Nodiadau Hwyluswyr – Diwyddiad Yr Wyddfa

AWGRYMIADAU ALLWEDDOL (Mark Richardson)

Roedd y rhain yn sefyll allan fel y syniadau allweddol:

Pethau ar goll:

- Pwysigrwydd yr Wyddfa a'i effaith ar yr ardal ehangach
- Mwy o bwyslais ar annog pobl i ffwrdd o'r Wyddfa i fynyddoedd eraill a mannau twristiaeth eraill yn Eryri
- Ffynonellau buddsoddi a chynhyrchu incwm

Cyfleoedd:

- Datblygu cyswllt cryf â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac ymgysylltiad rhanddeiliaid ehangach y tu hwnt i Eryri ei hun.
- Datblygu a hyrwyddo trwy'r SNP App yr Wyddfa i:
 - Darparu gwybodaeth gyfoes, i'w lawrlwytho ar:
 - Llwybrau cerdded
 - Cod Cefn Gwlad
 - Diogelwch mynyddoedd
 - Trafnidiaeth gyhoeddus
 - Parcio
 - Llety a busnesau lleol
 - Mynyddoedd ac atyniadau i twristiaid heblaw'r Wyddfa
 - Hanes lleol, bywyd gwyllt, mannau eraill o ddiddordeb
 - Cymraeg
 - Digwyddiadau yn yr Wyddfa (e.e. marathon, her y 3 cops, ac ati)
 - Arweiniad i arweinwyr grwpiau
 - Casglu gwybodaeth ar:
 - Ymweliadau grŵp wedi'u cynllunio
 - Profiad ymwelwyr
 - Gweithgareddau ymwelwyr
 - Problemau
 - Arolygon amgylcheddol
 - Lleoliad cerddwyr a'r amser dychwelyd disgwylidig - mewn achos o argyfwng
- Gwella cysylltedd trwy ddefnyddio FEMTOCells mewn mannau allweddol fel meusydd parcio a dechrau llwybrau i sicrhau mynediad i signal 3G mewn pwyntiau allweddol heb ddifetha'r tirlun gyda mastiau.
- Gwneud yr Wyddfa yn 'Mynydd Di Wastraff' - creu pwyntiau ailgylchu ym mhob maes parcio, a mannau mynediad allweddol i'r mynydd a'r copa.

- Datblygu'r seilwaith a'r marchnata i gysylltu'r Wyddfa yn fwy effeithiol â chyrchfannau twristiaeth eraill yng Ngogledd Cymru, gan ddefnyddio atyniad Yr Wyddfa i yrru twristiaeth yn ehangach yng Ngogledd Cymru a lleihau'r baich ar yr Wyddfa ei hun.

- Llwybrau wedi'u arwyddo'n well (arddull Ffrengig?)

- Pwyntiau gwybodaeth wedi'u staffio ar ddechrau'r llwybrau prysuraf yn ystod y tymor brig i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad, yn enwedig ar gyfer cerddwyr dibrofiad

- **Cyfleoedd buddsoddi / incwm:**

- Treth twristiaeth i'w gyfnewid am fynediad am ddim i drafnidiaeth gyhoeddus (model Swistir)
- Setliad poblogaeth gwell (o lywodraeth y DU)
- Tâl trariant (gydag eithriad preswylwyr)

| 1. Parch/Respect | |
|--|---|
| Oes 'na 'rywbeth ar goll o'r cynllun? / Is there anything missing from the plan? | |
| Tydio ddim rili yn deud sut da ni yn delio efo gormod o bobl a phwysau yn yr ardaloedd poblogaidd – sut mae hyn effeithio ar profiadau trigolion ac ymwelwyr...effaith ar y tirlun a natur | It doesn't really say how we deal with the pressure from too much people in the popular areas – how this effects on communities and the visitor experience...impact on the landscape and nature |
| System goleuadau traffig perygl i llwybrau cyhoeddus | A traffic light danger system for public footpaths |
| Cydweithio efo parneriaid eraill ddim jest y bobl sydd yn rhan o broses partneriaeth wyddfa | Work with other partners not just those that are part of the Snowdon Partnership |
| Dylai trefnwyr gyrru gwybodaeth i rhyw fath o hwb ac SNPA a nhw yn gadael i bawb wybod beth sydd yn mynd ymlaen | Event organisers should send information to some kind of hub and they and SNPA to let everyone know what's going on |
| Be di'r perthynas efo pobl efo anabledau | What is the relationship with people with disabilities |
| Dim byd am marchogaeth? | Nothing about horse-riding? |
| Cadwraeth bywyd gwylt – ddim digon o bwyslais trwy'r cynllun – intrinsic value of the mountain and the components – ardaloedd arbennig | Conservation of wildlife – not enough emphasis throughout the Plan – intrinsic value of the mountain and the components – special areas |
| Ardaloedd dynodedig | Designated areas |
| Mae'r angen i fod yn clir am y cynulleidfa – pawb. Mae'r parch at dwristiaid wedi bodoli ers canrifoedd yn yr Eryri/Yr Wyddfa | Need to be clear about the audience – everyone. Respect towards visitors has existed for centuries in Snowdonia/on Snowdon. |

| | |
|--|---|
| Parch at ymwelwyr – diogelwch twristiaid – gwybodaeth ar Croeso Cymru – gwybodaeth cyn iddyn nhw gyrraedd – gwneud diwrnod da yn well – paratoi! Ar ol cyrraedd Pen y Pass mae’n rhy hwyr. | Respect for visitors – visitor safety – info on Visit Wales – info before they arrive – make your good day better – prepare! After reaching Pen y Pass it’s too late. |
| Rhwydwaith 4G da – buddsoddi mewn diogelwch yr ymwelwyr – profiad ymwelwyr pan maent yn cyrraedd. Sefydlu moesau. Gwybodaeth fel y gallen nhw ddatrys eu problemau eu hunain. | Good 4G Network – investment in safety of visitors – visitor experience when they arrive. Establish etiquette. Info so they can sort their own problems. |
| Ymwelwyr 'Dros dro' – un dydd/ digwyddiadau wedi’u drefnu – angen trin yn wahanol – mae angen eu cyrraedd nhw | ‘Transient’ visitors –one day/organised event – treat it differently – need to get to them |
| Hysbysebu / llywodraeth / Visit Wales - dylai ‘parch’ fod yn rhan o’r hysbysebion | Advertising / government/ Visit Wales – ‘respect’ should be part of the advertising |
| Dylai ddod yn naturiol - problem sbwriel / gadael tentiau | It should come naturally – litter problem/leaving tents |
| Rhoi yn y curriculum (Prydeinig) | Put in the curriculum (British) |
| Hybu ‘behavioural change’ | Encouraging behaviour change |
| Symleiddio negeseuon - themâu tymhorol - calendr o negeseuon - syml / visual | Simplify messages – seasonal messages – calendar of messages – simple/visual |
| Cydwieithio â’r adran seicoleg Prifysgol Bangor – ‘behavioural change’ | Work with the psychology department at Bangor University – behaviour change |
| Gweledol / hawdd i ddarllen / cysondeb | Visual / easy read / consistency |
| Dod gan y llywodraeth | Messages to come from government |
| Enghraifft - cwmni trên yr Wyddfa (ddim yn lleol) - cael nhw i gydweithio a chyfrannu’n ariannol - ‘Rhodd Eryri’ | Example – the railway company (not local) get them to collaborate and contribute financially – Snowdonia Giving |
| Ymwelwyr yn barod i roi | Visitors are prepared to give |
| Cynnyrch sy’n cael ei werthu ddim yn medru ei ail gylchu ee cwpanau - defnyddio rhai iawn / codi ffi am eu dychwelyd? | Products sold can’t be re-used e.g. paper cups – use real ones/charge a fee which is recouped for returning them? |
| Y problem bosib gyda beiciwyr yn cael defnyddio llwybrau troed o ganlyniad i’r ail (?) papur gwyrdd (Max Grant – Ramblers) | The potential problem of cyclists being allowed onto footpaths as a result of Green Paper 2(?) (Max Grant – Ramblers) |

| | |
|--|--|
| Gwell cysylltiad gydad ysgolion i hybu'r cod cefn gwlad | Better links with schools to promote the Countryside Code |
| Gwneud hi'n haws ailgylchu ar Yr Wyddfa ac yn yr ardal cyfagos | Making it easier to recycle on Snowdon and in the surrounding area |
| Helpu cymunedau lleol deallt gwerth twristiaeth | Helping local communities understand the benefits of tourism |
| Welsh Language should be first language written and spoken | Dylai'r iaith Gymraeg fod yr iaith gyntaf – ysgrifenedig ac ar lafar |
| Dylai cwmniai talu am fynediad? | Should companies be paying for access? |
| Dylsai mwy o flaenoriaeth cael ei rhoi i'r faith bod y tir yn lle gwaith i ffermwyr | More prominence should be given to the fact that the land is a shop floor for the farmer |
| Yr angen i addysgu/codi ymwybyddiaeth or cod cefn gwlad/Mynydda Diogel/yr iaith Gymraeg a diwylliant drwy'r cyfryngau cymdeithasol a drwy dylliau mwy traddodiadol er engraifft canolfanau gwybodaeth a byrddau gwybodaeth | The need to educate / raise awareness of the Country Code / Mountain Safety / the Welsh Language and Culture via social media and more traditional means such as Tourist Information Centres and notice boards |
| Twristiaid o wahanol diwylliant a traddodiadau: sut i gyfathrebu heb tramgwyddo | Tourists of different cultures and traditions : how to communicate without offending |
| Anghydbwysedd o ran y gwerthfawrogiad o gwerth twristiaeth ymysg pobol lleol | An imbalance regarding the appreciation of the benefits of tourism amongst locals |
| Sut allwch chi neu'ch mudiad gefnogi'r cynllun? / How can you or your organisation support the plan? | |
| Cynyddu warden gwirfoddol | Increase volunteer wardens |
| Tim llwybrau ar y mynyddoedd- YG | Footpath team on the mountains - NT |
| Pres gan Cyfoeth naturiol am llwybrau | Funding from NRW for footpaths |
| Os y Wyddfa ydi'r 3ydd atyniad mwyaf poblogaidd oes digon o gydnabyddiaeth o hyn gan sefydliadau cyhoeddus? | If Snowdon is the 3 rd most popular attraction in Wales is there enough recognition of this from public bodies? |
| Amenity investment fund ond am ba hyd? | Amenity investment fund but for how long? |
